# Polisi Cwricwlwm

**Dyddiad adolygu a mabwysiadu:**

**Date reviewed and adopted:** 07.10.2025

**Dyddiad yr adolygiad nesaf:** Hydref 2026

**Date of next review:** Autumn 2026

**Llofnod Cadeirydd y Llywodraethwyr:**

**Signature of chair of governors:**

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CRC) yn ganolog i gynlluniau, polisïau, arfer ac ethos ein hysgol. Fel Ysgol sy'n Parchu Hawliau rydym yn addysgu am hawliau plant a hefyd yn modelu hawliau a pharch ym mhob perthynas.

**Polisi Cwricwlwm YGG Bryniago**

Beth yw ‘Cwricwlwm’ yn Ysgol Gymraeg Bryniago?

Mae cwricwlwm ysgol yn bopeth y mae dysgwr yn ei brofi yn yr ysgol. Wrth ddylunio cwricwlwm Ysgol Bryniago mae anghenion ein dysgwyr yn flaenllaw yn ein meddyliau. Rydyn ni'n ystyried yn ofalus:

- Beth ydyn ni'n ei ddysgu?
- Sut ydyn ni'n ei ddysgu?
- Pam ydyn ni'n ei ddysgu?

Bwriad y Polisi hwn yw esbonio beth fydd ffocws y cwricwlwm yn YGG Bryniago. Mi fydd yr Ysgol yn cynllunio yn erbyn y 6 Maes Dysgu a Phrofiad ond y 4 diben bydd yn gyrru’r cwricwlwm ymlaen gyda’r sgiliau allweddol yn sylfaen i bob agwedd o’r cwricwlwm yn ein hysgol ni.

1. **Cyflwyniad:**

Mae Ysgol Bryniago yn gymuned hapus, diogel a chynhwysol lle mae lles wrth wraidd popeth a wnawn. Daw holl gymuned yr ysgol ynghyd i weithio gyda’n gilydd er mwyn sicrhau bod pob unigolyn yn cael ei werthfawrogi, yn ffynnu ac yn cyrraedd ei lawn botensial. Ysbrydolwn ein dysgwyr i gredu yn eu hunain ac i ymddiried yn eraill fel eu bod oll yn profi llwyddiant ac yn gwneud eu gorau glas ym mhob agwedd o fywyd ysgol.

Dim ond ein gorau glas sy’n ddigon da.

2. **Gweledigaeth Cwricwlwm YGG Bryniago**

Ein nod yn Ysgol Gymraeg Bryniago yw cynnig cwricwlwm deinamig, perthnasol, pwrpasol ac ysgogol sy’n tanio’r angerdd am ddysgu yn ein dysgwyr. Bydd ein cwricwlwm yn cynnig profiadau eang, gwerthfawr a chofiadwy i’n dysgwyr. Bydd yn eu grymuso i adeiladu ar eu sgiliau a’u gwybodaeth blaenorol. Byddant yn cael eu herio i brofi llwyddiant. Bydd bob plentyn yn cael mynediad cyflawn at y profiadau, y wybodaeth a’r sgiliau y mae eu hangen arnyn nhw ym myd gwaith, ar gyfer dysgu gydol oes ac er mwyn bod yn ddinasyddion gweithredol. Yn ganolog i’n cwricwlwm cynhwysol mae ein hymrwymiad i ddatblygu meddylfryd a pherthnasoedd cadarnhaol fel bod ein dysgwyr yn ffynnu. O dan ein gofal a’n harweiniad bydd ein cwricwlwm yn datbygu ein dysgwyr i fod yn ddinasyddion annibynnol a chydweithredol a fydd yn barod i gerdded ymlaen yn hyderus yn eu cymuned leol, Cymru a’r byd ehangach. Ysgogwn ein plant i deimlo balchder am eu gwlad a’u hiaith ac i drysori eu hetifeddiaeth a’u diwylliant.

“Allwedd diwylliant yw iaith”.

Agorwn ddrysau’r dyfodol i blant ysgol Bryniago.

## 3. Ein Gwerthoedd:

| | |
|---|---|
| Parch<br><br>Tegwch<br><br>Cymreictod<br><br>Hapusrwydd<br><br>Cydweithio<br><br>Cydraddoldeb<br><br>Egwyddorol<br><br>Caredig<br><br>Uchelgeisiol<br><br>Dyfalbarhád<br><br>Diolchgar | **<u>Fe Ddysg Plant yr Hyn y Maent yn ei Fyw</u>**<br><br>Os bydd plentyn yn byw gyda beirniadaeth<br>Fe ddysg gondemnio.<br><br>Os bydd plentyn yn byw gyda gelyniaeth<br>Fe ddysg ymladd.<br><br>Os bydd plentyn yn byw gyda gwawd<br>Fe ddysg fod yn swil.<br><br>Os bydd plentyn yn byw gyda gwarth<br>Fe ddysg deimlo'n euog.<br><br>Os bydd plentyn yn byw gyda goddefgarwch<br>Fe ddysg fod yn amyneddgar.<br><br>Os bydd plentyn yn byw gydag anogaeth<br>Fe ddysg hyder.<br><br>Os bydd plentyn yn byw gyda chanmoliaeth<br>Fe ddysg werthfawrogi.<br><br>Os bydd plentyn yn byw gyda thegwch<br>Fe ddysg gyfiawnder.<br><br>Os bydd plentyn yn byw gyda sicrwydd<br>Fe ddysg ffydd.<br><br>Os bydd plentyn yn byw gyda chymeradwyaeth<br>Fe ddysg hoffi ei hun.<br><br>Os bydd plentyn yn byw gyda derbyniad a chyfeillgarwch<br>Fe ddysg ddarganfod cariad yn y byd. |

## 4. Nod ac amcanion:

Yn Ysgol Gymraeg Bryniago anelwn at:

• sicrhau bod ein holl blant yn ddwyieithog ac yn aml-ieithog erbyn iddynt drosglwyddo i'r ysgol gyfun. Bydd ein dysgwyr yn cael cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn amrywiaeth o amgylchiadau;

• creu cyfleoedd i'n plant ddysgu trwy brofiadau perthnasol, uniongyrchol o fewn awyrgylch hapus, gofalgar sy'n ysgogi'r dysgu. Anelwn at hybu dysgu pwrpasol er mwyn datblygu meddyliau bywiog, ymholgar yn ein plant;

• rhoi ystyriaeth briodol i ddiddordeb pob plentyn unigol a sicrhau bod pob disgybl yn cael pleser trwy'r broses ddysgu, yn llawn cymhelliant, yn barod i ymchwilio ac yn gwneud pob ymdrech i fod yn chwilfrydig ac i weithio'n annibynnol ac yn hunanddisgybledig. Anogwn bob plentyn i fod yn ymwybodol o'u doniau unigol ac i ddatblygu'r rhain i'w llawn botensial er mwyn dod yn unigolion meddylgar;

• datblygu ein holl blant i'w llawn botensial waeth beth fo'u cefndir a'u gallu trwy ddarparu tasgau gwahaniaethol sy'n deillio o'r profiadau addysgu amrywiol. Byddwn hefyd yn annog creadigrwydd ein plant yn ogystal a'u medrau rhesymu.

• paratoi pob disgybl i fod yn aelod cyfrifol o gymdeithas trwy roi pwyslais ar werthoedd megis gonestrwydd, dyfalbarhad, parch a goddefgarwch at eraill a chwrteisi a'r parodrwydd i wneud eu gorau glas ym mhob peth a wnant.

• datblygu hunanhyder ym mhob plentyn yn ogystal ag agwedd gadarnhaol at waith. Mae gan bawb gyfraniad pwysig i'w wneud a'r gallu i ragori mewn rhai meysydd. Byddwn yn rhoi'r cyfle i brofi mwynhad a phleser wrth gyflawni tasgau'n llwyddiannus a sicrhau bod ein holl blant yn ymwybodol o'u cyfraniad pwysig i fywyd yr ysgol, y gymuned a'r amgylchedd trwy ddarparu profiadau a fydd yn meithrin yr ymwybyddiaeth hon.

## 5. Y Pedwar Diben:

Mae cwricwlwm Ysgol Bryniago yn cael ei lywio gan y pedwar diben. Mae'r pedwar diben yn ymgorffori gweledigaeth y Cwricwlwm i Gymru, ac yn cynrychioli dyheadau'r ysgol yn ogystal a'n huchelgeisiau ar gyfer pob dysgwr, gan eu galluogi i ddod yn:

• ddysgwyr uchelgeisiol a galluog

• ddinasyddion egwyddorol a gwybodus

• gyfranwyr mentrus a chreadigol

• unigolion iach a hyderus.

Bydd holl brofiadau dysgu YGG Bryniago yn darparu cyfleoedd i ddysgwyr symud ymlaen tuag at y pedwar diben hyn. Y rhain yw'r man dechrau, yn ogystal â'r gyrchfan, a rhaid iddynt fod yn sail i bob penderfyniad.










**Unigolion iach, hyderus.**

Bydd ein dysgwyr yn datblygu i fod yn:

- Unigolion deallus, onest a hyderus sy’n arddangos hunan-gred, hunan-barch a sydd â gwerthoedd personol cadarnhaol.
- Unigolion sy’n deall ac yn arddangos empathi tuag at emosiynau a chredoau eraill ac sy’n gwerthfawrogi pwysigrwydd diogelwch personol, iechyd meddwl a chorfforol da yn ogystal a diet cytbwys.
- Unigolion sydd â dealltwriaeth o hawliau plant a’u cyfrifoldebau personol wrth ddangos sgiliau cymdeithasol cadarnhaol, ymddireidaeth a pharch at ei gilydd.

**Dysgwyr uchelgeisiol, galluog.**

Bydd ein dysgwyr yn datblygu i fod yn:

- Unigolion sy’n dangos gwytnwch ac yn croesawu her. Byddant yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at bob agwedd o fywyd ysgol.
- Unigolion sy’n dyfalbarhau, sy’n aneli am safonau uchel wrth gydnabod bod gwneud camgymeriadau yn arwain at ddysgu.
- Unigolion sy’n uchelgeisiol, yn credu yn eu gallu eu hunain a sy’n gweerthfawrogi bod ymdrech ac agwedd cadarnhaol at eu dysgu yn allweddol i lwyddiant.

**Dinasyddion Gwybodus, Moesegol.**

Bydd ein dysgwyr yn datblygu i fod yn:

- Unigolion sydd, trwy brofi amrywiaeth enag o gyfleoedd cymdeithasol, emosiynol, diwylliannol ac ysbrydol, yn dod yn ddinasyddion cyfrifol.
- Unigolion sy’n gwneud dewisiadau da.
- Unigolion sydd a dealltwriaeth o faterion cymdeithasol, moesol a moesegol.
- Unigolion sydd ag ymdeimlad o berthyn a balchder yn eu hysgol, eu cymuned a’u gwlad.

**Cyfranwyr mentrus, creadigol.**

Bydd ein dysgwyr yn datblygu i fod yn:

- Unigolion sydd wedi eu grymuso i fod yn frwdfrydig, yn llawn cymhelliant ac yn cymryd rhan lawn yn eu dysgu.
- Unigolion sydd yn greadigol, sydd a meddwl annibynnol, unigryw a sy'n barod i gymryd rhan llawn yn eu dysgu a'u bywyd ysgol a'u cymuned.
- Unigolion dyfeisgar a myfyriol, sy'n rhannu syniadau yn hyderus ac yn defnyddio eu sgiliau a'u gwybodaeth i ddatrys problemau gan feddwl am eu dysgu.
- Unigolion sy'n croesawu'r her o ddatrys problemau ac yn dangos hyblygrwydd meddwl.

## 6. Sgiliau Hanfodol

Mae sgiliau hanfodol yn sail i'r pedwar diben a dylid eu datblygu o fewn ystod eang o ddysgu ac addysgu o fewn ein cwricwlwm.

### Creadigrwydd ac arloesi

Bydd ein cwricwlwm yn cael ei gynllunio mewn ffordd sy'n datblygu creadigrwydd ac arloesi mewn ein dysgwyr drwy roi lle a chyfleoedd iddyn nhw sydd yn eu cefnogi i fod yn:

- chwilfrydig ac ymholgar ac i greu llawer o syniadau;
- cysylltu gwahanol brofiadau, gwybodaeth a sgiliau a gweld, archwilio a chyfiawnhau datrysiadau amgen;
- gallu adnabod cyfleoedd a chyfleu eu strategaethau. Dylai hyn gefnogi dysgwyr i greu gwerth o wahanol fathau.

### Meddwl yn feirniadol a datrys problemau

Bydd ein cwricwlwm yn cael ei gynllunio mewn ffordd sydd yn datblygu dysgwyr i feddwl yn feirniadol a datrys problemau drwy roi lle a chyfleodd iddyn nhw sydd yn eu cefnogi i

- ofyn cwestiynau ystyrlon ac i werthuso gwybodaeth, tystiolaeth a sefyllfaoedd;
- dadansoddi a chyfiawnhau datrysiadau posibl, gan adnabod materion a phroblemau posibl;
- dod yn wrthrychol wrth iddyn nhw wneud penderfyniadau, gan adnabod a datblygu dadleuon;
- gallu cynnig datrysiadau sy'n creu gwerth o wahanol fathau.

### Effeithiolrwydd personol

Bydd ein cwricwlwm yn cael ei gynllunio mewn ffordd sydd yn datblygu effeithiolrwydd personol ein dysgwyr drwy roi lle a chyfleodd iddyn nhw sydd yn eu cefnogi i:

- feithrin deallusrwydd ac ymwybyddiaeth emosiynol, gan ddod yn hyderus ac annibynnol;
- arwain dadleuon a thrafodaethau, gan ddod yn ymwybodol o oblygiadau cymdeithasol, diwylliannol, egwyddorol a chyfreithiol eu dadleuon;
- gwerthuso eu dysgu a'u camgymeriadau, gan adnabod meysydd I'w datblygu;
- dod yn gyfrifol ac yn ddibynadwy;
- gallu adnabod a chydnabod gwerth o wahanol fathau ac yn defnyddio'r gwerth hwnnw.

**Cynllunio a threfnu**

Bydd ein cwricwlwm yn cael ei gynllunio mewn ffordd sydd yn datblygu cynllunio a threfnu dysgwyr drwy roi lle a chyfleodd iddyn nhw sydd yn eu cefnogi:

- gosod nodau, gwneud penderfyniadau a monitor canlyniadau interim (lle bod hynny'n briodol o ran datblygiad);
- myfyrio ac addasu, yn ogystal â rheoli amser, pobl ac adnoddau.
- Gwirio cywirdeb a chreu gwerth o wahanol fathau.
- feithrin gwerthfawrogiad o ddatblygu cynaliadwy a'r heriau sy'n wynebu dynoliaeth
- meithrin ymwybyddiaeth o ddatblygiadau technolegol sy'n dod i'r amlwg
- cael eu cefnogi a'u herio er mwyn iddyn nhw fod yn barod i fodloni'r galwadau sy'n gysylltiedig â gweithio mewn sefyllfaoedd ansicr yn hyderus, wrth i gyd-destunau lleol, cenedlaethol a byd-eang arwain at heriau newydd a chyfleoedd i lwyddo
- meithrin eu gwydnwch a datblygu strategaethau a fydd yn eu helpu i reoli eu lles. Dylen nhw fod yn cael profiadau lle y gallan nhw ymateb yn gadarnhaol yn wyneb heriau, ansicrwydd neu fethiant
- dysgu i weithio'n effeithiol gydag eraill, gan werthfawrogi'r gwahanol gyfraniadau y maen nhw eu hunain ac eraill yn eu gwneud. Dylen nhw hefyd ddechrau cydnabod cyfyngiadau eu gwaith eu hunain a chyfyngiadau pobl eraill wrth iddyn nhw feithrin dealltwriaeth o'r ffordd y mae gwahanol bobl yn chwarae gwahanol rolau mewn tîm

7. **Egwyddorion Cynllunio'r Cwricwlwm yn YGG Bryniago:**

Yn YGG Bryniago, mae ein Cwricwlwm yn:

- galluogi dysgwyr i wneud cynnydd tuag at gyflawni'r pedwar diben
- eang ac yn gytbwys

- addas i ddysgwyr o wahanol oedrannau, galluoedd a doniau
- darparu ar gyfer cynnydd priodol dysgwyr
- cynnwys pob un o'r chwe Maes
- cwmpasu pob datganiad o'r hyn sy'n bwysig
- cynnwys yr elfennau gorfodol o'r cwricwlwm, sef crefydd, gwerthoedd a moeseg, addysg cydberthynas a rhywioldeb, Cymraeg a Saesneg
- ymgorffori'r sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol
- cynnwys ystod o ddulliau asesu sy'n cefnogi cynnydd dysgwyr
- darparu dysgu eang, gan dynnu ystod o brofiadau, gwybodaeth a sgiliau ynghyd ar draws ystod o gyd-destunau, testunau a gweithgareddau, gan greu cysylltiadau ar draws Meysydd
- darparu ar gyfer dysgu cynyddol ddwfn a soffistigedig (dros amser)
- ddatblygiadol briodol ac ysgogi cynnydd dysgwyr
- cynnwys cyfleoedd ar gyfer dysgu ac ystyried elfennau trawsbynciol, sy'n:
    - galluogi dysgwyr i ystyried cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol
    - meithrin dealltwriaeth o yrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â byd gwaith
    - meithrin dealltwriaeth o addysg hawliau dynol ac amrywiaeth.

Mae ein cwricwlwm yn defnyddio'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig i lywio'r broses o ddatblygu cynnwys cwricwlwm. Yn benodol fe'u defnyddir i wneud y canlynol:

- dewis ystod o brofiadau, gwybodaeth a sgiliau sy'n galluogi ein dysgwyr i feithrin dealltwriaeth o'r 'syniadau mawrion' a'r egwyddorion allweddol o fewn pob datganiad
- cefnogi cynnydd ein dysgwyr o fewn y 'syniadau mawrion' ac egwyddorion allweddol a'u gallu i fedru datblygu dealltwriaeth a defnydd cynyddol soffistigedig o'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig
- galluogi dysgwyr i archwilio testunau a gweithgareddau drwy safbwyntiau gwahanol – archwilir yr un cysyniad neu syniad drwy wahanol ddatganiadau o'r hyn sy'n bwysig
- helpu ein dysgwyr i wneud synnwyr o ystod o brofiadau, gwybodaeth a sgiliau o fewn pob Maes gan sicrhau fod cynnwys yn helpu dysgwyr i ddatblygu dealltwriaeth resymegol o ystod o wybodaeth

Yn ein hysgol, rydym yn defnyddio'r disgrifiadau dysgu fel offeryn cynllunio i lywio'r ystod eang o wybodaeth, sgiliau a phrofiadau o fewn ein cwricwlwm. Mae ein cwricwlwm hefyd yn defnyddio'r disgrifiadau dysgu i lywio cynllunio ar gyfer ystod o gyd-destunau ar gyfer dysgu ar draws cam cynnydd i greu dyfnder ac ehangder ar draws ein cwricwlwm.

Nid yw ein cwricwlwm yn defnyddio'r disgrifiadau dysgu i greu tasgau annibynnol, gweithgareddau, tasgau asesu neu adroddiadau dros dro i lunio barn am ddeilliannau ein dysgwyr ar adeg benodol ar y continwwm.

**8. Cynnydd**

Mae Cynnydd mewn dysgu yn broses o gynyddu dyfnder, soffistigeiddrwydd, ymgysylltiad a rheolaeth dysgwyr, yn hytrach na yn hytrach na chwmpasu corff o gynnwys. Nid yw cynnydd yn llinellol ac mae gwahanol ddysgwyr yn debygol o wneud cynnydd mewn gwahanol ffyrdd. Mae cynnydd wrth wraidd ein cynllun cwricwlwm. Wrth ddewis cynnwys ein cwricwlwm ac asesu rydym yn defnyddio'r egwyddorion cynnydd ar gyfer pob Maes i lywio ein dull gweithredu o ran cynnydd.




9. a. **Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir**

Mae athrawon y blynyddoedd cynnar, sef y Meithrin a'r Derbyn, yn dilyn Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas gynhelir law yn llaw gyda Chwricwlwm i Gymru.

Mae'r cwricwlwm hwn yn bodloni'r gofynion canlynol:


- mae'n galluogi dysgwyr i ddatblygu yn y ffordd a ddisgrifir ym mhedwar diben y cwricwlwm
- mae'n eang ac yn gytbwys
- mae'n addas ar gyfer dysgwyr o wahanol oedrannau, galluoedd a doniau
- mae'n darparu llwybr cynnydd priodol i bob dysgwr

Mae'r cwricwlwm hwn hefyd yn:

- cwmpasu'r chwe maes dysgu a phrofiad
- cwmpasu'r 27 datganiad o'r hyn sy'n bwysig

- adlewyrchu egwyddorion cynnydd
- cwmpasu elfennau gorfodol y cwricwlwm, gan gynnwys y sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol

Mae disgwyl i athrawon i ddefnyddio’r cwricwlwm yn ei gyfanrwydd i gefnogi cynllunio effeithiol er mwyn sicrhau cwricwlwm sy'n briodol yn ddatblygiadol ar gyfer ein dysgwyr ieuengaf.




9. b.**Cwricwlwm i Gymru:**

Mae Cwricwlwm i Gymru yn rhoi’r rhyddid i ni fel ysgol i ddylunio ein cynnwys ein hunain yn seiliedig ar:

• 6 Maes Dysgu a Phrofiad a'u Datganiadau Beth sy'n Bwysig

• Datblygu Sgiliau Trawsgwricwlaidd

• 5 Thema Drawsbynciol

| 6 Maes Dysgu a Phrofiad/ The 6 Areas of Learning and Experience | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Celfyddydau Mynegiannol/ The Expressive Arts** | **Iechyd a lles/ Health and Wellbeing** | **Dyniaethau / Humanities** | **Mathemateg a Rhifedd/ Mathematics and Numeracy** | **Ieithoedd,Llythrennedd a Chyfathrebu/ Languages, Literacy and Communication** | **Gwyddoniaeth a Thechnoleg/ Science and technology** |
| Yn y **Celfyddydau Mynegiannol,** bydd dysgwyr YGG Bryniago yn archwilio celf, dawns, drama, ffilm, cyfryngau digidol a cherddoriaeth i ddatblygu ei sgiliau creadigol, artistig a pherfformio. | Mae **Iechyd a Lles** yn ymwneud â gofalu am iechyd corfforol a meddyliol gan gynnwys lles emosiynol. Bydd dysgwyr YGG Bryniago yn dysgu am fwyta'n iach a sut i wneud penderfyniadau da, delio â dylanwadau a datblygu cydberthnasoedd iach. | Yn y **Dyniaethau** bydd dysgwyr YGG Bryniago yn dysgu am y byd, cymdeithas a digwyddiadau yn y gorffennol a'r presennol. Bydd yn archwilio'r heriau a'r cyfleoedd sy'n ein hwynebu, a pha gamau egwyddorol y gallwn eu cymryd i ddiogelu'r byd a'i bobl yn y dyfodol. | Yn **Mathemateg a Rhifedd,** bydd dysgwyr YGG Bryniago yn datblygu dealltwriaeth o rifau ac yn defnyddio symbolau mewn mathemateg. Bydd yn archwilio siapiau a mesuriadau ac yn dysgu am ystadegau a thebygolrwydd. | Yn **Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu**, bydd dysgwyr YGG Bryniago yn dysgu am ieithoedd. Bydd yn deall ac yn defnyddio Cymraeg, Saesneg ac ieithoedd eraill. Bydd yn astudio ac yn creu llenyddiaeth, ac yn cyfathrebu mewn ffyrdd llafar, ysgrifenedig neu weledol. Gallai hyn gynnwys barddoniaeth, drama a ffilm. | Yn **Gwyddoniaeth a Thechnoleg** bydd dysgwyr YGG Bryniago yn dysgu am bioleg, cemeg, ffiseg, cyfrifiadureg a dylunio a thechnoleg. Bydd yn dysgu am ddylunio a pheirianneg, pethau byw, mater, grymoedd ac egni, a sut mae cyfrifiaduron yn gweithio. |

| **Sgiliau Trawsgwricwlaidd**<br>Byddwn yn cynllunio ar gyfer datblygu'r sgiliau trawsgwricwlaidd canlynol o fewn ac ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad gan ddefnyddio'r fframweithiau cenedlaethol diwygiedig. | | |
|---|---|---|
| Llythrennedd/ Literacy | Rhifedd/ Numeracy | Cymhwysedd Digidol/ Digital Competence |

| **Themâu trawsgwricwlaidd**<br>Byddwn yn cynnwys ac ymestyn y themâu isod ar draws y cwricwlwm | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Addysg cydberthynas a rhywioldeb: canllawiau statudol | Hawliau Dynol | Amrywiaeth | Addysg gyrfaoedd a phrofiadau sy'n ymwneud â byd gwaith | Cyd-destunau lleol , cenedlaethol a rhyngwladol |

10. **Meysydd Dysgu a Phrofiad:**

Er mwyn gwireddu gweledigaeth y pedwar diben, rhaid cefnogi dysgwyr YGG Bryniago i wneud cysylltiadau o fewn y Meysydd a ledled Meysydd. Bydd y broses hon yn arwain at wybodaeth ddyfnach a dealltwriaeth fwy soffistigedig wrth i ddysgwyr wneud cynnydd ar hyd y continwwm dysgu. Mae cydweithredu a

chynllunio ysgol gyfan ar gyfer dysgu yn hanfodol i gyflawni'r cwricwlwm holistaidd hwn.

Yn YGG Bryniago rydym yn sicrhau bod y disgyblion yn derbyn amrywiaeth o brofiadau o fewn holl feysydd dysgu a phrofiad y cwricwlwm.

**11. Sgiliau Trawsgwricwlaidd:**

**Bydd dysgwyr yn cael cyfleoedd i:**

- ddatblygu sgiliau gwrando, darllen, siarad ac ysgrifennu
- ddefnyddio rhifau a datrys problemau mewn sefyllfaoedd go iawn
- ddatblygu eu hyder wrth ddefnyddio ystod o dechnolegau i'w helpu i weithredu a chyfathrebu'n effeithiol a gwneud synnwyr o'r byd

12. **Elfennau gorfodol cwricwlwm**:

Yn ogystal a'r uchod, bydd Ysgol Bryniago yn cyflwyno a datblygu elfennau gorfodol y cwricwlwm:

- Crefydd, gwerthoedd a moeseg.
- Addysg cydberthynas a rhywioldeb.
- Cymraeg.
- Saesneg.

13. **Themau Trawsgwricwlaidd:**

Byddwn yn cynnwys ac ymestyn y themâu isod ar draws y cwricwlwm

**a. Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb**

Mae helpu ein dysgwyr i ffurfio a chynnal ystod o gydberthnasau, yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch, yn greiddiol i addysg cydberthynas a rhywioldeb yr ysgol. Mae datblygu'r cydberthnasau hyn yn hollbwysig er mwyn datblygu lles emosiynol, gwydnwch ac empathi ein dysgwyr. Mae dealltwriaeth o rywioldeb gyda phwyslais ar hawliau, iechyd, cydraddoldeb a *thegwch* yn grymuso ein dysgwyr i ddeall eu hunain, cymryd cyfrifoldeb am eu penderfyniadau a'u hymddygiadau eu hunain a ffurfio cydberthnasau sy'n gwbl gynhwysol, gan adlewyrchu amrywiaeth a hyrwyddo parch. Mae gan addysg cydberthynas a rhywioldeb rôl gadarnhaol a grymusol i'w chwarae yn addysg ein dysgwyr ac mae'n hanfodol rhoi ffocws iddynt er mwyn galluogi ein dysgwyr i gyflawni'r pedwar diben.

Mae ein cwricwlwm yn cynnwys cyfleoedd i'n dysgwyr i wneud y canlynol:

- dysgu am hawliau dynol drwy ddatblygu eu dealltwriaeth o hawliau dynol a ffynonellau'r hawliau hynny. Mae hyn yn cynnwys datblygu eu dealltwriaeth o CCUHP a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau.

- dysgu drwy hawliau dynol sy’n cefnogi ein dysgwyr i ddysgu am hawliau dynol sy’n cefnogi ein dysgwyr i ddatblygu gwerthoedd, agweddau ac ymddygiadau sy’n adlewyrchu hawliau dynol.
- dysgu ar gyfer hawliau dynol sy’n eu cymell ei weithredu’n gymdeithasol a grymuso dinasyddiaeth weithredol i hyrwyddo parch at hawliau pawb.

**Amrywiaeth:** Yn Ysgol Bryniago rydyn ni’n adnabod a dathlu natur amrywiol grwpiau cymdeithasol a chymunedau a sicrhau bod y cwricwlwm yn adlewyrchu'r amrywiaeth honno a'i fod yn gallu ymateb i brofiadau'r grwpiau o fewn ein cymuned. Wrth i’n dysgwyr wneud cynnydd, dylen nhw ddod yn gynyddol ymwybodol o'r ystod o nodweddion penodol a all ddiffinio ein hunaniaeth, gan gynnwys rhyw, rhywedd, hil, crefydd, oedran, anabledd a rhywioldeb.

Mae ein cwricwlwm yn cynnwys cyfleoedd i’n dysgwyr wneud y canlynol:

- datblygu empathi a thrugaredd at eraill
- dathlu cefndiroedd, gwerthoedd a nodweddion amrywiol
- datblygu eu gwerthoedd eu hunain ac ymdeimlad o'u hunaniaeth
- meithrin dealltwriaeth o bobl â gwahanol gredoau a safbwyntiau
- herio stereoteipiau

**Addysg, gyrfaoedd a phrofiadau sy’n gysylltiedig â byd gwaith:** Mae dysgu am addysg a phrofiadau byd gwaith yn hollbwysig i ni yn Ysgol Bryniago. Mae dysgu am hyn yn meithrin sgiliau ar gyfer bywyd a gwaith. Mae hyn yn helpu ein dysgwyr i ddeall y gydberthynas rhwng eu dysgu a byd gwaith.

Mae cwricwlwm yr ysgol galluogi dysgwyr i gael profiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith a gyrfaoedd. Mae’n meithrin eu gwybodaeth am ehangder y cyfleoedd a fydd ar gael iddyn nhw gydol eu hoes. Bydd y dysgu hwn eu helpu i wneud penderfyniadau deallus am eu llwybrau gyrfa.

Mae ein cwricwlwm yn cynnwys cyfleoedd ar gyfer Addysg a Phrofiadau Byd Gwaith sy’n ysbrydoli ein dysgwyr i wneud y canlynol:

- meithrin dealltwriaeth o ddiben byd gwaith iddyn nhw eu hunain ac i'r gymdeithas yn gyfan
- dod yn fwyfwy ymwybodol o'r amrywiaeth o gyfleoedd sydd ar gael iddyn nhw, gan ehangu eu gorwelion
- datblygu'r agweddau a'r ymddygiadau sydd eu hangen i oresgyn rhwystrau i gyflogadwyedd, rheoli gyrfa a dysgu gydol oes
- gwerthfawrogi'r ystod gynyddol o gyfleoedd yn y gweithle lle mae gallu cyfathrebu yn Gymraeg yn bwysig
- ystyried cyfleoedd drwy amrywiaeth o brofiadau ystyrlon ym maes dysgu, gwaith ac entrepreneuriaeth
- datblygu gwydnwch a'r gallu i addasu mewn ymateb i heriau, dewisiadau a chyfrifoldebau gwaith a bywyd

**Cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol:** Mae rhoi ffocws o

fewn cwricwlwm yr ysgol i gyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol yn helpu ein dysgwyr i wneud synnwyr o'u perthynas â'u cymuned, eu hunaniaeth genedlaethol a'r byd ehangach. Drwy gynllunio cwricwlwm gyda ffocws lleol, cenedlaethol a rhyngwladol rydyn ni'n sicrhau ein bod yn cefnogi ein dysgwyr i ddod yn ddinasyddion amlochrog, gan fyfyrio ar eu rolau a'u cyfrifoldebau ym mhob cyd-destun a chydnabod amrywiaeth pob un ohonyn nhw.

Mae ein cwricwlwm yn cynnwys cyfleoedd i ddysgwyr i wneud y canlynol:

- ddatblygu dysgu drwy ystod o leoedd a digwyddiadau arwyddocaol
- creu cysylltiadau â chymunedau a sefydliadau lleol
- dysgu am gyfraniad a phrofiadau gwahanol unigolion sy'n llywio pob cyd-destun
- dysgu am amrywiaeth ddiwylliannol, gwerthoedd, hanes a thraddodiadau sy'n llywio pob cyd-destun
- deall y gwahanol hunaniaethau, hanes, diwylliannau, safbwyntiau a gwerthoedd sy'n llywio cymunedau a chymdeithasau
- cydnabod ac ymgysylltu â ffactorau, dylanwadau ac effeithiau (gan gynnwys effeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol) yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol
- datblygu ymdeimlad dilys o gynefin, gan ddatblygu gwybodaeth am wahanol ddiwylliannau a hanes, a'u galluogi i feithrin ymdeimlad cryf o hunaniaeth unigol a deall sut y mae hyn yn cysylltu â dylanwadau ehangach ac wedi'u llywio ganddyn nhw
- manteisio ar hanesion a gwahanolrwydd ardal leol ysgol
- deall eu rôl fel dinasyddion a strwythurau'r llywodraeth sy'n effeithio arnyn nhw ym mhob cyd-destun
- archwilio, dadansoddi'n feirniadol ac ymateb i faterion cyfoes a heriau sy'n effeithio ar eu bywydau a bywydau pobl eraill drwy bob cyd-destun
- deall datblygu cynaliadwy, yr heriau a wynebir gan yr amgylchedd a chymdeithas a sut y gallan nhw ymgysylltu â'r materion hyn a gwneud gwahaniaeth gan gefnogi dinasyddiaeth gynaliadwy
- deall y Gymru gyfoes gan roi cyfleoedd i fyfyrio, deall a dadansoddi cymdeithas gyfoes a'r ffordd y mae'r dysgwyr yn ymgysylltu â hi
- adnabod etifeddiaeth ieithyddol a diwylliannol amrywiol Cymru a'i chysylltiadau y tu hwnt i Gymru
- adnabod sut y mae ein hieithoedd yn datgloi gwybodaeth am ein llenyddiaeth, ein daearyddiaeth a'n hanes a'u cysylltiadau y tu hwnt i Gymru
- adnabod y cysylltiadau rhwng cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol, gan ddeall y ffordd y maen nhw'n dylanwadu ar ei gilydd yn barhaus
- defnyddio sgiliau dadansoddi beirniadol ym mhob cyd-destun, gan gydnabod agweddau cadarnhaol a heriol ar bob un ohonyn nhw

## Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

Mae crefydd, gwerthoedd a moeseg yn ofyniad statudol o'r Cwricwlwm i Gymru ac mae'n orfodol i **bob** dysgwr rhwng 3 ac 16 oed. Mae'n bwnc a benir yn lleol ac felly rydyn ni fel Ysgol yn dilyn maes llafur Awdurdod Addysg Dinas a Sir Abertawe.

**14. Cwricwlwm sy’n hygyrch i bawb:**

Wrth gynllunio ein cwricwlwm, byddwn yn sicrhau ei fod:

- yn addas ar gyfer oedran, gallu a dawn pob dysgwr
- yn ystyried anghenion dysgu ychwanegol (ADY) pob dysgwr, os o gwbl
- yn sicrhau dysgu ac addysgu eang a chytbwys ar gyfer pob dysgwr
- gwneud trefniadau ar gyfer asesu gallu a thueddfryd dysgwyr mewn perthynas â'r cwricwlwm perthnasol, ar fynediad i ysgol neu leoliad, i nodi'r camau nesaf yn eu dilyniant a'r dysgu a'r addysgu sydd eu hangen i gefnogi'r cynnydd hwnnw.

**15. Cynefin**

Bydd ein cwricwlwm yn meithrin balchder ac angerdd i’n dysgwyr eu hunain, cymuned ein hysgol, y gymuned ehangach a Chymru. Bydd ein cwricwlwm yn galluogi ein dysgwyr i archwilio a deall gwahanol hunaniaethau, tirweddau a’r hanesion sy’n dod at ei gilydd i ffurfio eu cynefin. Bydd hyn yn galluogi dysgwyr i ddatblygu ymdeimlad o’u hunaniaeth ac o hunaniaeth pobl eraill a gwneud cysylltiadau gyda phobl, lleoedd a hanes mewn lleoedd eraill yng Nghymru ac ar draws y byd.

16. **Addysgeg:**

Wrth wraidd addysgeg yr ysgol mae’r 12 egwyddor Addysgu. Byddwn yn defnyddio’r 12 egwyddor addysgu o fewn y gweithgareddau a nodwyd uchod.

Rydym yn myfyrio’n gyson ar ein harferion addysgu, yn eu rhannu ac yn eu datblygu, yn seiliedig ar ein dealltwriaeth o’r 12 egwyddor addysgegol a nodir yn Fframwaith y Cwricwlwm a’r arferion sy’n llwyddiannus yn ein hysgol ni.

**Mae Addysgu Da yn:**

| 1. | 2. | 3. | 4. |
|---|---|---|---|
| canolbwyntio’n gyson ar ddibenion cyffredinol y cwricwlwm | rhoi her i’r holl ddysgwyr drwy eu hannog i gydnabod pwysigrwydd ymdrechu'n barhaus i gwrdd â disgwyliadau sy'n uchel, ond o fewn eu cyrraedd | defnyddio cymysgedd o ddulliau sy’n cynnwys addysgu uniongyrchol | defnyddiocymysgedd o ddulliau gan gynnwys y rheini sy'n hybu sgiliau datrys problemau, sgiliau creadigol a’r gallu i feddwl mewn modd beirniadol |
| 5. | 6. | 7. | 8. |
| golygu gosod tasgau a dewis adnoddau sy'n adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol ac yn ennyn diddordeb | creu cyd-destunau dilys ar gyfer dysgu | dilyn egwyddorion asesu ar gyfer dysgu | ymestyn oddi mewn ac ar draws y Meysydd |
| 9. | 10. | 11 | 12 |
| atgyfnerthu yn rheolaidd y sgiliau trawsgwricwlaidd, sef llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, | annog dysgwyr i gymryd cyfrifoldeb cynyddol am eu dysgu eu hunain | hybu datblygiad cymdeithasol ac emosiynol a chydberthnasau cadarnhaol | hybu cydweithio |

| | | | |
|---|---|---|---|
| ac yn darparu cyfleoedd i'w hymarfer | | | |

**17. Trefniadaeth Cyflwyno'r Cwricwlwm YGG Bryniago:**

Ein nod yw darparu amgylchedd dysgu hapus, diogel a heriol lle y gall bob plentyn ddatblygu eu hunan hyder, eu gallu, dawn ac aeddfedrwydd. Rhoddir pwyslais ar ddysgu sgiliau sylfaenol – iaith (Cymraeg a Saesneg) a rhifedd, credwn hefyd ei bod yn hanfodol bod y sgiliau hyn yn ystyrlon i ddisgyblion.


Mae'n bwysig bod pob plentyn yn ymwybodol o'i filltir sgwâr, ei wlad a'r byd. Trwy ddefnyddio dulliau dysgu sy'n seiliedig ar themâu, yr hyn sy'n bwysig a'r disgrifiadau dysgu o fewn Cwricwlwm i Gymru, rydym yn sicrhau bod y plant yn cael mynediad i addysg eang a chytbwys. Mae cynnydd plant yn cael ei asesu a'i fonitro ym mhob maes ac os oes angen byddwn yn cysylltu â rhieni.

Rhoddir pwyslais ar y ffaith y dylai pob plentyn ddatblygu ymwybyddiaeth o'i etifeddiaeth a'i ddiwylliant Cymreig. Mae gan yr ysgol hefyd gynllun cyfle cyfartal. Hyrwyddir y polisi hwn trwy integreiddio ei egwyddorion i'r cwricwlwm a gwersi lle bynnag y cyfyd y cyfle.

Mae dysgwyr YGG Bryniago yn datblygu'r Pedwar Diben, Y 6 Maes Dysgu a Phrofiad a'r medrau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol trwy amrywiaeth o weithgareddau trawsgwrigwlaidd. Maent yn cael cyfle i ddysgu yn y dosbarth ac yn yr awyr agored. Defnyddir cyfuniad o dechnegau uniongyrchol ac anuniongyrchol i feithrin dysgu plant fel eu bod yn cael cyfleoedd i ddysgu trwy ymchwilio ac archwilio, yn ogystal â thrwy dderbyn cyfarwyddiadau.

Defnyddir strategaethau grwpio amrywiol i drefnu'r dysgu a'r addysgu. Sicrheir cydbwysedd da rhwng gwaith dosbarth cyfan, grŵp a gwaith unigol. Pan fydd plant yn cydweithio, ein nod yw darparu rhai cyfleoedd iddynt wneud hynny ar y cyd, mewn parau neu grwpiau bach.
Mae holl ddysgwyr YGG Bryniago yn dysgu drwy thema:
Meithrin: Thema pythefnosol
Derbyn- Blwyddyn 6: Thema tymhorol.

| | **Tymor 1** | **Tymor 2** | **Tymor 3** |
|---|---|---|---|
| **Derbyn** | Brwm brwm!  | Cestyll  | Y Farchnad  |
| **Blwyddyn 1** | Mae gen i dipyn o dŷ bach twt  | Cymru  | Anifeiliaid  |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Blwyddyn 2** | Bwyd  | Lliwiau  | Ein Byd Mawr Crwn  |
| **Blwyddyn 3** | Y Corff  | Artistiaid  | Gwlad, Gwlad!  |
| **Blwyddyn 4** | Llosgfynyddoedd  | Lights, camera, action  | Cynefinoedd  |
| **Blwyddyn 5** | Cadw'n heini  | Saith rhyfeddod y byd  | Byd Gwyrdd  |
| **Blwyddyn 6** | Y Gofod  | Rydw i'n unigryw  | Fy Milltir Sgwar  |

Cyflwynir cwricwlwm yr ysgol trwy'r dulliau canlynol:

**Meithrin**

a. **Wythnosau Ffocws:**

Mae'r wythnosau ffocws yn rhoi cyfle i'r dysgwyr i astudio thema am gyfnod byr (1-2 wythnos).
-Tasg Mathemateg a Rhifedd yn gysylltiedig â'r thema.
-Tasg Iaith, llythrennedd a Chyfathrebu yn gysylltiedig â'r thema.
-Tasgau traws-gwricwlaidd yn seiliedig â'r thema.
*Mae cyfle i'r dysgwyr i ddatblygu eu medrau digidol ar draws yr holl gwricwlwm a nodir uchod

**Debryn a Blynyddoedd 1, 2 a 3:**

a. **Wythnosau Ffocws:**

Mae'r wythnosau ffocws yn rhoi cyfle i'r dysgwyr i astudio thema am gyfnod byr (1-2 wythnos).
-Tasg Mathemateg a Rhifedd yn gysylltiedig â'r thema.
-Tasg Iaith, llythrennedd a Chyfathrebu yn gysylltiedig â'r thema.
-Tasgau traws-gwricwlaidd yn seiliedig â'r thema.
*Mae cyfle i'r dysgwyr i ddatblygu eu medrau digidol ar draws yr holl gwricwlwm a nodir uchod

b. **Gwaith Thema/ Tasg gyfoethog:**

-Tasg Mathemateg a Rhifedd yn gysylltiedig â'r thema.
-Tasg Iaith, llythrennedd a Chyfathrebu yn gysylltiedig â'r thema.
-Tasgau traws-gwricwlaidd yn seiliedig â'r tasgau cyfoethog
*Mae cyfle i'r dysgwyr i ddatblygu eu medrau digidol ar draws yr holl gwricwlwm a nodir uchod

c. **Sesiwn Llythrennedd:**

Ffocws ar ddatblygu llafar, darllen ac ysgrifennu Cymraeg ac aml-ieithog y dysgwyr.

d. **Sesiwn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg:**

Ffocws ar ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y dysgwyr o

- draddodiadau crefyddol Cristnogol Cymru
- arferion y prif grefyddau eraill a gynrychiolir yng Nghymru;

e. **Sesiwn iechyd a lles**

Ffocws dyddiol i gefnogi lles emosiynol y dysgwyr. Ffocws wythnosol i ddatblygu ffitrwydd corfforol y dysgwyr.

**<u>Blynyddoedd 4, 5 a 6:</u>**

a. **Wythnosau Uwch-sgilio**

. Mae'r wythnosau uwch-sgilio yn gyfle i gyflwyno sgiliau newydd o fewn:

- Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu (Cymraeg a Saesneg)
- Mathemateg a Rhifedd
- Y 6 Maes Dysgu a Phrofiad

Bydd y dysgwyr yn cael cyfle i ymarfer y sgiliau yma cyn eu defnyddio o fewn y fwydlen thema a/neu'r dasg gyfoethog.

b. **Bwydlen Thema:**

Cyfle i'r disgybl i ddewis beth mae ef/hi am ddysgu mwy amdano o fewn y thema.




**Cwrs Cyntaf:** Beth hoffech ddysgu mwy amdano o fewn y thema?

**Tameidiau**: Cytunwch gyda'ch partner/ grwp ar gwestiwn ymchwilio. Torrwch y cwestiwn mawr yn gwestiynau bach i'ch helpu gyda'ch gwaith ymchwilio

**Prif gwrs:** Ewch ati i ymchwilio. Gweithiwch gyda'ch partner/ grwp

**Ochrau:** Dyma'r llyfrau, gwefannau ac unrhyw adnodd arall sydd gennych i'ch helpu gyda'ch gwaith ymchwilio

**Pwdin:** Cewch ddewis sut hoffech gyflwyno'r hyn rydych chi wedi ei ddysgu.

c. **Tasg gyfoethog:**

Cyfle i greu tasg gyfoethog fel grwp/ dosbarth yn seiliedig ar y thema. Bydd 5 tasg wahanol yn cylchdroi dros gyfnod o 5 wythnos. Yn ystod wythnos 6, rhoddir cyfle i'r disgyblion a'r athro ddod â'r gwaith ynghyd i greu'r dasg orffenedig.

d. **Sesiwn Llythrennedd:**

Ffocws ar ddatblygu llafar, darllen ac ysgrifennu Cymraeg/ Saesneg ac aml-ieithog y dysgwyr.

e. **Sesiwn Rhifedd:**

Ffocws ar ddatblygu sgiliau rhifedd ac algebra, geometreg, a data'r dysgwyr.

f. **Sesiwn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg:**

Ffocws ar ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y dysgwyr o

- draddodiadau crefyddol Cristnogol Cymru
- arferion y prif grefyddau eraill a gynrychiolir yng Nghymru;

g. **Sesiwn iechyd a lles**

Ffocws dyddiol i gefnogi lles emosiynol y dysgwyr. Ffocws wythnosol i ddatblygu ffitrwydd corfforol y dysgwyr.

## 18. Cynllunio’r Cwricwlwm yn YGG Bryniago:

Bydd yr athrawon yn cynllunio’n ofalus yn erbyn themâu sydd yn galluogi’r ysgol i gyrraedd cydbwysedd o ran y chwe maes dysgu a phrofiad. Yn YGG Bryniago, rhoddir pwyslais ar ddatblygu a chyfoethogi medrau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a Mathemateg a Rhifedd y disgyblion er mwyn iddyn nhw gymhwyso y medrau hyn yn hyderus yn draws-gwricwlaidd yn y chwe maes dysgu a phrofiad. Bydd disgwyl i Iechyd a lles ymddangos yn glir yn y cynllunio ac wrth ystyried Dyniaethau, Gwyddoniaeth a Thechnoleg a Chelfyddydau Mynegiannol bydd hi’n bosib i ddewis thema gyda thuedd tuag at faes dysgu a phrofiad arbennig e.e. Dyniaethau gan astudio’r ardal leol, Gwyddoniaeth a Thechnoleg gan ystyried dyfeisiadau ayyb. Bydd llais y disgybl yn allweddol yn y broses gynllunio.

Wrth gynllunio yn Ysgol Bryniago, rhoddir pwyslais ar gynnig profiadau dysgu cyfoethog, eang a dwfn o ansawdd uchel i’n dysgwyr. Mae hyn yn golygu rhoi amser i ddysgwyr gaffael, ymarfer a chymhwyso gwybodaeth a sgiliau i wreiddio eu dysgu a pheidio â rhuthro drwy'r gwaith. Mae hyn yn gosod sylfaen gadarn ar gyfer camau nesaf eu dysgu ac yn golygu eu bod yn adeiladu ar eu dysgu a’u cynnydd trwy gydol eu cyfnod yma

Dyma broses gynllunio Cam 1 a 2 YGG Bryniago:





Taflen gynllunio tymor hir:
Trosolwg Blwyddyn Tymhorol:
6 MDaPh:
Yr hyn sy'n bwysig
Cam cynnydd
Disgrifiadau Dysgu

Taflen gynllunio tymor hir:
Trosolwg Ysgol:
6 MDaPh:
Yr hyn sy'n bwysig

Cynlluniau tymor hir:
Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu:
Cymraeg
Saesneg
Arallieithrwydd
Mathemateg a Rhifedd
Digidol
Crefydd, gwerthoedd a moeseg
6 Maes Dysgu a Phrofiad

| Tymor byr | Tymor canol | Tymor hir | Trosolwg Ysgol |
|---|---|---|---|
| Athrawon | Athrawon<br>Arweinwyr MDaPh | Athrawon<br>Arweinwyr MDaPh | Arweinwyr MDaPh |

Dyma broses gynllunio Cam 3 YGG Bryniago:




| Tymor byr | Tymor canol | Tymor hir | Trosolwg Ysgol |
|---|---|---|---|
| Athrawon | Athrawon<br>Arweinwyr MDaPh | Athrawon<br>Arweinwyr MDaPh | Arweinwyr MDaPh |

**Trefnu a Chynllunio'r Cwricwlwm**

**Cam 1: Cynllunio Tymor Hir:**

Mapiau tymor hir MDaPh yn dangos pa agweddau o'r meysydd sydd i'w astudio yn dymhorol.

- Trosowlg sgiliau
- Trosolwg Yr Hyn Sy'n Bwysig
- Disgrifiadau Dysgu

Cynlluniau arweiniol:

- Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu (Cymraeg a Saesneg)
- Mathemateg a Rhifedd

- Gwyddonaieth a thechnoleg
- Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Lles
- Dyniaethau

**Cam 2: Cynllunio Tymor Canol**

Cynlluniau sydd yn nodi manylder unedau neu agweddau o gynlluniau gwaith:

- Wythnosau Ffocws (Meithrin-Blwyddyn 3)
- Wythnosau Uwch-sgilio (Blynyddoedd 4-6)
- Wythnos Bwydlen Thema (Blynyddoedd 4-6)
- Tasgau Cyfoethog (Derbyn – Blwyddyn 6)

**Cam 3: Cynllunio Tymor Byr**

Cynlluniau sydd yn nodi agweddau'r addysgu a dysgu gyda ffocws fesul cyfnod byrrach- gwersi unigol, dyddiol, wythnosol.

| | **Meithrin** | **Derbyn** | **Blwyddyn 1-2** | **Blwyddyn 3-6** |
|---|---|---|---|---|
| **Amlder** | Pythefnosol | Wythnosol | Wythnosol | Wythnosol |
| **Disgwyliadau Cynllunio** | Thema | Wythnos ffocws neu thema (gan gynnwys tasg gyfoethog)<br>Iechyd a Lles Ffocws<br>Rhifedd a Mathemateg Ffocws<br>Llythrennedd | Wythnos ffocws neu thema (gan gynnwys tasg gyfoethog)<br>Iechyd a Lles Ffocws<br>Rhifedd a Mathemateg Ffocws<br>Llythrennedd (gan gynnwys aml-ieithrwydd) | Uwch-sgilio/ Bwydlen Thema/ neu tasg gyfoethog<br>Mathemateg<br>Llythrennedd<br>Aml-ieithrwydd<br>Iechyd a Lles |

Wrth gynllunio themâu a dewis bwydlen thema, bydd mewnbwn y disgyblion wrth wraidd y cynllunio a'r addysgu a dysgu. Ar ddiwrnod pontio i'r dosbarth newydd ym mis Gorffennaf, mae'r disgyblion yn cael cyfle i fynegi barn am themau'r flwyddyn. O ganlyniad, ein gobaith yn YGG Bryniago yw y bydd y disgyblion yn cymryd perchnogaeth o'r gweithgareddau a'u dysgu eu hunain.

**19. Iaith addysgu'r ysgol:**

Mae Ysgol Bryniago yn ysgol benodedig Gymraeg. Addysgir pob pwnc trwy gyfrwng y Gymraeg hyd at 7 oed. Cyflwynir Saesneg yn ffurfiol ym Mlwyddyn 3. Fodd bynnag, mae sicrhau ein bod yn datblygu ein dysgwyr i fod yn ddysgwyr amlieithog o oed ifanc yn allweddol bwysig i ni yn Ysgol Bryniago.

## 20. Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae'r cwricwlwm a gynigir yn yr ysgol hon wedi ei drefnu er mwyn rhoi mynediad i bob disgybl sydd yn mynychu'r ysgol. Fel ysgol rydym wedi ystyried sut y bydd pob dysgwr yn cael ei gefnogi i wireddu'r pedwar diben ac i symud ymlaen. Rydym wedi ystyried ein darpariaeth ADY a sut y byddwn yn bodloni anghenion gwahanol grwpiau o ddysgwyr.

Darperir ar gyfer ein grwpiau ffocws drwy ein darpariaeth gynhwysol o fewn yr ysgol.

Grwpiau ffocws YGG Bryniago:

- Grwpiau ffocws llythrennedd
- Grwpiau ffocws rhifedd
- Grwpiau ffocws lles

Petai plentyn ag anghenion dysgu dwys neu anabledd, darperir CDU ar eu cyfer gan ddilyn

## 21. Diben a rôl asesu o fewn ein cwricwlwm

Mae asesu yn chwarae rhan sylfaenol wrth alluogi pob dysgwr unigol i wneud cynnydd. Er mwyn i asesu fod yn effeithiol, rydym yn cydnabod bod partneriaethau rhwng ein hymarferwyr, ein dysgwyr a rhieni a gofalwyr yn bwysig.

Mae cynnydd mewn dysgu yn broses o ddatblygiad cynyddol mewn dyfnder, soffistigeiddrwydd, diddordeb a rheolaeth dysgwyr, yn hytrach na chorff o gynnwys i'w astudio. Nid yw cynnydd yn llinol ac mae dysgwyr gwahanol yn debygol o wneud cynnydd mewn ffyrdd gwahanol iawn. Dylai'r broses o gynllunio trefniadau asesu a'u rhoi ar waith, sy'n rhan o gwricwlwm ac arferion ystafell ddosbarth, gydnabod hyn a chaniatáu ar gyfer amrywiaeth o wyriadau, seibiannau ac amrywiadau o ran cyflymder taith y dysgwr.

Byddwn yn asesu pob dysgwr ar draws y continwwm 3 i16 yn seiliedig ar y cynnydd a fynegir yn ein cwricwlwm, yn seiliedig ar y cynnydd a fynegir yn ein cwricwlwm, ac yn y bwriadau dysgu a gynlluniwyd.

### Arweinwyr

Bydd arweinwyr yn ein hysgol yn sefydlu diwylliant dysgu cadarn sy'n cefnogi ac yn herio ymarferwyr i alluogi dysgwyr i wneud cynnydd priodol. Dylid cyflawni hyn drwy:

- greu gweledigaeth glir ar gyfer cwricwlwm sy'n helpu dysgwyr i wireddu'r pedwar diben ac sy'n cefnogi cynnydd dysgwyr unigol
- creu amgylchedd sy'n meithrin yr wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i hyrwyddo llesiant dysgwyr
- creu amgylchedd yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch o'r ddwy ochr, yn hytrach nag un sy'n canolbwyntio ar gydymffurfiaeth ac adrodd yn ôl
- galluogi ymarferwyr i ddatblygu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i gyflawni eu rôl asesu yn effeithiol
- sicrhau y caiff cwricwlwm ei gynllunio, ei fabwysiadu, ei adolygu a'i ddiwygio gan gynnig cyfleoedd i ymarferwyr gynllunio dysgu pwrpasol sy'n diwallu anghenion pob dysgwr
- datblygu ac ymwreiddio prosesau a strwythurau sy'n galluogi ymarferwyr i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd
- sicrhau darlun clir o gynnydd dysgwyr yn yr ysgol neu'r lleoliad, a hwnnw'n ddarlun y mae pob ymarferydd yn ei ddeall – proses sy'n cynnwys deialog broffesiynol barhaus a rheolaidd ar gynnydd fel rhan o'r systemau i helpu ymarferwyr i hunanfyfyrio ac i lywio gwelliant
- sicrhau bod dealltwriaeth glir o gynnydd dysgwyr ar draws ysgolion a, lle mae'n briodol, lleoliadau, sy'n bwydo i mewn i drafodaethau ar gynnydd dysgwyr yn yr ysgol neu leoliad
- ystyried y ffordd orau o ddarparu her a chymorth ychwanegol i ddysgwyr, gan gynnwys gweithio gyda phartneriaid eraill
- annog ymgysylltu rhwng yr holl gyfranogwyr yn y broses dysgu ac addysgu er mwyn datblygu partneriaethau effeithiol
- sicrhau bod y gofynion statudol wedi'u bodloni ac y rhoddwyd sylw dyledus i'r canllawiau hyn ar gyfer asesu, a bod ymarferwyr yn ystyried hyn wrth gynllunio dysgu ac addysgu ac yn eu harferion dyddiol.

**Ymarferwyr**

Bydd ymarferwyr yn ein hysgol yn cynllunio ar gyfer, a darparu, profiadau dysgu effeithiol sy'n briodol i oedran a datblygiad pob dysgwr unigol. Maen nhw'n cefnogi a herio dysgwyr yn effeithiol er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd. Dylid cyflawni hyn drwy:

- fod yn glir ynghylch y dysgu a fwriedir a chynllunio profiadau dysgu sy'n ennyn diddordeb yn unol â hynn
- helpu i hyrwyddo lles dysgwyr drwy arferion asesu
- rhannu dysgu a fwriedir gyda dysgwyr yn briodol
- gwerthuso dysgu, gan gynnwys drwy arsylwi, holi a thrafod
- defnyddio'r wybodaeth a geir o asesiadau parhaus i fyfyrio ar eu harferion eu hunain er mwyn llywio'r camau nesaf o ran yr addysgu a chynllunio ar gyfer dysgu

- rhoi adborth perthnasol a phenodol sy’n ennyn diddordeb dysgwyr, yn eu hannog i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu, ac yn symud eu dysgu yn ei flaen
- annog dysgwyr i fyfyrio ar eu cynnydd a, lle mae’n briodol, eu hannog i ystyried sut y maen nhw wedi datblygu, pa brosesau dysgu y maen nhw wedi manteisio arnyn nhw a’r hyn y maen nhw wedi’i gyflawni
- darparu cyfleoedd i ddysgwyr gymryd rhan yn asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion, a’u cefnogi i ddatblygu’r sgiliau perthnasol i wneud hyn yn effeithiol
- datblygu sgiliau dysgwyr o ran gwneud defnydd effeithiol o amrywiaeth o adborth i symud eu dysgu yn ei flaen
- cynnwys rhieni a gofalwyr yn natblygiad a chynnydd dysgwr, gan gynnwys y dysgwr yn y ddeialog hon fwyfwy dros amser
- cymryd rhan mewn deialog gydag arweinwyr a chyd-ymarferwyr i sicrhau bod ganddyn nhw ddarlun clir o’r cynnydd sy’n cael ei wneud o fewn eu hysgol
- nodi unrhyw her ychwanegol neu gymorth y gall dysgwyr fod eu hangen, gan ymgysylltu â phartneriaid allanol lle mae angen

**Dysgwyr**

Bydd ein dysgwyr yn cyfrannu at y broses ddysgu a chymryd rhan ynddi, mewn ffordd sy’n briodol i’w hoedran a’u cyfnod datblygu. Bydd hyn yn helpu dysgwyr i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth, a'u cymhwyso mewn gwahanol gyd-destunau. Wrth iddynt wneud cynnydd a chydag annibyniaeth gynyddol, dylai'r dysgwyr gael eu cefnogi a'u hannog i wneud y canlynol:

- ddeall ar ba gam y maen nhw’n eu dysgu a ble mae angen iddyn nhw fynd nesaf
- datblygu dealltwriaeth o sut y byddan nhw’n cyrraedd yno
- ymateb yn weithredol i adborth ar eu dysgu a datblygu agweddau cadarnhaol tuag at gael adborth, ymateb iddo a gweithredu arno fel rhan o'u dysgu
- adolygu eu cynnydd dysgu, a chyfleu hyn yn unigol a chydag eraill
- myfyrio ar eu taith ddysgu a datblygu cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain dros amser

**Rhieni a gofalwyr**

Mae gan rieni, gofalwyr rôl bwysig i’w chwarae a dylai ysgolion a lleoliadau ymgysylltu â nhw er mwyn iddyn nhw allu cefnogi cynnydd dysgwyr mewn ffordd briodol. Byddwn yn annog a galluogi rhieni a gofalwyr i wneud y canlynol:

- ymgysylltu’n rheolaidd â’r ysgol neu'r lleoliad a'i hymarferwyr/ymarferwyr er mwyn deall a chefnogi cynnydd eu plentyn yn ei ddysgu

- rhannu gwybodaeth a dealltwriaeth berthnasol gyda’r ysgol neu'r lleoliad a'i hymarferwyr/ymarferwyr, a fydd yn cefnogi dysgu a chynnydd eu plentyn
- ymateb yn weithredol i wybodaeth a ddarperir am ddysgu eu plentyn ac, mewn cydweithrediad â’r ysgol neu'r lleoliad, gynllunio ffyrdd o gefnogi’r dysgu hwnnw o fewn a’r tu allan i’r ysgol neu'r lleoliad.

**Partneriaid Allanol**

Byddwn yn ymgysylltu â phartneriaid allanol i:

- helpu ymarferwyr i asesu a phennu anghenion dysgwyr y gall fod angen cymorth ychwanegol arnynt, ac yna eu helpu drwy ddarparu cyngor a chymorth. Gall hyn gynnwys cymorth addysgol arbenigol a chymorth gan asiantaethau eraill megis iechyd
- darparu gwybodaeth am gynnydd dysgu sydd wedi digwydd ar gyfer ein dysgwyr sydd efallai yn treulio eu hamser mewn cyd-destunau eraill.

**22. Asesu:**

**Cefnogi ein dysgwyr unigol yn barhaus o ddydd i ddydd**

Er mwyn cefnogi ein dysgwyr unigol yn barhaus o ddydd i ddydd, mae asesu’n barhaus yn rhan annatod o arfer dyddiol dosbarth mewn ffordd sy’n cefnogi dysgu ac sy’n golygu nad yw’n ddim gwahanol i ddysgu.

Bydd ein harferion asesu yn nodi cryfderau pob dysgwr unigol, ei gyflawniadau, ei feysydd i’w datblygu a, lle y bo’n berthnasol, rhwystrau i ddysgu. Dylai ymarferwyr ddefnyddio’r ddealltwriaeth hon, gan drafod â’r dysgwr, i benderfynu ar y camau nesaf sydd eu hangen i symud er mwyn datblygu’r dysgu, gan gynnwys unrhyw heriau ychwanegol a chymorth sydd ei angen.

**Pennu cynnydd, dysgwyr unigol dros amser, llunio darlun ohono a myfyrio arno**

Bydd ein hymarferwyr yn pennu’r cynnydd a wneir gan ein dysgwyr, a chofnodi hyn, lle mae’n briodol, er mwyn deall taith y dysgwr dros wahanol gyfnodau ac mewn amrywiaeth o ffyrdd. Mae hyn yn cynnwys meithrin dealltwriaeth o sut y mae dysgwr wedi dysgu, yn ogystal â’r hyn y mae wedi’i ddysgu ac yn gallu ei ddangos.

Bydd myfyrio ar gynnydd dysgwr dros amser yn galluogi ein hymarferwyr i roi adborth a helpu i gynllunio ei ddysgu yn y dyfodol, gan gynnwys unrhyw ymyriadau, cymorth ychwanegol neu her y gall fod eu hangen. Dylai hyn gynnwys y camau nesaf uniongyrchol a’r amcanion a’r nodau tymor hwy y dylai’r dysgwr weithio tuag atyn nhw er mwyn ei helpu i barhau i symud ymlaen o ran ei ddysgu. Gellir defnyddio hyn hefyd fel sail ar gyfer cyfathrebu ac ymgysylltu â’n rhieni a gofalwyr.

**Deall cynnydd grŵp er mwyn myfyrio ar eich arfer**

Mae asesu yn galluogi ein hymarferwyr ac arweinwyr i ddeall i ba raddau ac ym mha ffyrdd mae gwahanol grwpiau o ddysgwyr yn gwneud cynnydd priodol. Mae’r ddealltwriaeth hon yn cyfrannu ar ein prosesau o hunanwerthuso a gwelliant parhaus.

**Cyfathrebu â rhieni a gofalwyr**

Wrth gyfathrebu ac ymgysylltu â rhieni a gofalwyr, rydym yn rhannu gwybodaeth am:

- y cynnydd y mae eu plentyn yn ei wneud
- ei anghenion er mwyn gwneud cynnydd yn y dyfodol
- sut y gellir diwallu ei anghenion er mwyn gwneud cynnydd yn y dyfodol gartref
- eu llesiant cyffredinol yn yr Ysgol

Rydym yn darparu crynodeb o wybodaeth am ddysgwyr unigol yn flynyddol. Mae ein dysgwyr yn cael cyfleoedd i gyfrannu at y broses gyfathrebu gyda’u rhieni a’u gofalwyr.

**Asesiadau Darllen a rhifedd**

Mae asesiadau personol ar-lein statudol yn rhan o'r trefniadau asesu ehangach ac maent wedi’u cynllunio i helpu’r ymarferydd a’r dysgwr i ddeall sut mae sgiliau darllen a rhifedd dysgwr yn datblygu, a beth ddylai’r camau nesaf fod.

**Asesu ar adeg derbyn**

Ar unrhyw adeg mae dysgwr yn dod i mewn i'n hysgol, gan gynnwys pan fydd yn dechrau addysg oedran ysgol gorfodol, byddwn yn asesu'r galluoedd, sgiliau, gwybodaeth a doniau dysgwyr yn erbyn ein cwricwlwm i bennu’r camau nesaf yn eu cynnydd a’r dysgu a’r addysgu sydd eu hangen i wneud y cynnydd hwnnw.

**23. Pontio**

Yn unol â’r Rheoliadau Pontio 2022 mae ein cynllun pontio yn ymdrin â’r materion canlynol:

- cynigion ar gyfer rheoli a chydgysylltu broses bontio o’r ysgolion cynradd i’r ysgolion uwchradd
- cynigion ar gyfer sicrhau parhad dysgu yn gyffredinol drwy gynllunio’r cwricwlwm a chynllunio ar gyfer dysgu ac addysgu i ddysgwyr ym Mlwyddyn 6 sy’n pontio i Flwyddyn 7
- cynigion ar gyfer sut y caiff cynnydd dysgwr unigol ei gefnogi wrth iddo bontio o’r ysgol gynradd i’r ysgol uwchradd
- sut y caiff anghenion dysgu a lles pob dysgwr unigol eu cefnogi wrth iddyn nhw bontio o’r ysgol gynradd i’r ysgol uwchradd
- sut y byddwn yn adolygu ac yn monitro effaith y cynllun pontio o ran sut mae wedi helpu i:: o sicrhau parhad dysgu o cefnogi cynnydd dysgwyr unigol

**24. Adolygu a gwerthuso:**

Bydd ein cwricwlwm ysgol yn cael ei adolygu'n barhaus.  Bydd yr adolygiadau'n ystyried barn rhanddeiliaid ac yn cael eu cymeradwyo gan y Corff Llywodraethol. Byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'n cwricwlwm ac yn adolygu'r crynodeb os gwneir newidiadau i'r cwricwlwm yn ystod y broses adolygu.

Bydd y polisi hwn yn cael ei ddiwygio'n gyson. Mae'n hanfodol caniatáu addasu a newid er mwyn gwir fanteisio ar hyblygrwydd y Cwricwlwm newydd.